CPS

Polisi Erlyn mewn Achosion Gyrru Gwael

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Beth yw gyrru gwael?	4
Swyddogaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron	10
Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron	11
Erlyn achosion o yrru gwael	15
Gofalu am ddioddefwyr a thystion	28
Dedfrydu	33
Casgliad	35
Atodiad A – Sefydliadau cefnogi	36

DATGANIAD CYHOEDDUS

Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn egluro'r ffordd y byddwn ni, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), yn ymdrin ag achosion sy'n cynnwys gyrru gwael. Mae'n atodol ac yn ddarostyngol i'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron.

1.2 Mae gyrru gwael sy'n arwain at farwolaeth neu anafiadau yn gallu bod â goblygiadau ofnadwy i ddioddefwyr a'u teuluoedd a'u cyfeillion, ac mae hi'n bwysig dangos y bydd cyfiawnder yn cael ei weithredu mewn achosion lle digwyddodd hyn.

1.3 Mae'r CPS yn ymrwymedig i sicrhau, mewn achosion o'r fath, fod ein herlynwyr yn llunio'r penderfyniadau cyhuddo cywir, fel y bydd y person cywir yn cael ei erlyn am y trosedd cywir yn y llys priodol.

1.4 Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i'r penderfyniadau hynny fod yn unol â'r gyfraith ar y pryd, ond hefyd, lle bo hynny'n iawn a chyfreithlon, dylent adlewyrchu newidiadau yn agweddau'r cyhoedd at yrru gwael ac awydd dioddefwyr, neu eu teuluoedd, eu cyfeillion a'r cyhoedd, i weld y bydd cyfiawnder yn cael ei weithredu yn yr achosion hyn.

1.5 Yn 2002 cynhaliodd Arolygiaeth CPS Ei Mawrhydi (HMCPSI) adolygiad o'r modd yr oedd y CPS yn ymdrin ag achosion traffig ffyrdd lle bu marwolaethau. Yn yr adolygiad hwnnw, gwelwyd bod y cyhuddiad cywir wedi'i

ddewis gan y CPS[1] ym mwyafrif helaeth yr achosion a adolygwyd.

1.6 Yn 2006 cydnabu'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (DPP), er gwaethaf casgliadau'r adroddiad gan HMCPSI, fod yna adegau pan nad oedd dioddefwyr neu eu teuluoedd a'u cyfeillion yn cytuno â'r penderfyniadau a wnaed gan y CPS neu eu bod yn ei chael yn anodd eu derbyn neu eu deall.

1.7 Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref yn 2005, pasiodd y Senedd Ddeddf Diogelwch y Ffyrdd 2006, a fydd yn cyflwyno troseddau newydd o achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal ac achosi marwolaeth tra ar ffordd yn anghyfreithlon[2].

1.8 Penderfynodd y DPP ei bod yn adeg briodol i'r CPS adolygu ei bolisïau a'i drefniadau ar gyfer erlyn achosion gyrru gwael, ac y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus eang fel rhan o'r adolygiad hwnnw, ac fe'i lansiwyd ym mis Rhagfyr 2006[3].

1.9 Pwrpas yr ymgynghoriad oedd dangos arferion a threfniadau'r CPS yn agored ac esbonio sut y mae erlynwyr y CPS yn llunio eu penderfyniadau yn yr achosion hyn, gan fod ar y CPS eisiau i'r cyhoedd fod â hyder yn y penderfyniadau a wnawn.

[1] A Report on the Thematic Review of the Advice Conduct and Prosecution by the Crown Prosecution Service of Road Traffic Offences involving Fatalities in England and Wales – ar gael o wefan HMCPSI (www.hmcpsi.gov.uk)
[2] Adrannau 20 a 21 Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006. Nid yw'r adrannau hyn mewn grym adeg ysgrifennu.
[3] Erlyn Gyrru Gwael – Ymgynghoriad ynghylch Polisi ac Arferion Erlyn y CPS.

1.10 Cafwyd 139 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan ddangos mor ddwfn yw teimladau pobl am ganlyniadau gyrru gwael a sut y gall y canlyniadau achosi trallod ofnadwy, yn enwedig ble'r anafwyd neu y bu farw rhywun annwyl.

1.11 Mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau ynghylch y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad, a chafodd y cyfan sylw llawn wrth baratoi'r polisi hwn. Serch hynny, cyfrifoldeb y CPS yn unig yw cynnwys y polisi.

1.12 Nid y CPS yw'r unig asiantaeth sy'n delio ag achosion yn ymwneud â gyrru gwael. Mae gan yr heddlu, y llysoedd troseddol, ynadon a barnwyr oll ran i'w chwarae er mwyn hyrwyddo mwy o hyder yn y system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn gweithio gyda'r asiantaethau partner hyn i sicrhau y bydd cyfiawnder yn cael ei weithredu yn yr achosion hyn.

Beth yw Gyrru Gwael?

2.1 Nid oes diffiniad statudol o yrru gwael, ond y mae nifer o droseddau cyffredinol sy'n ymwneud â neu'n perthyn yn uniongyrchol i'r modd y mae cerbyd yn cael ei yrru. Disgrifir elfennau pob trosedd a lefelau'r gosb isod.

Llofruddiaeth

2.2 Lle bo tystiolaeth bod modurwr wedi lladd person arall gan fwriadu lladd neu achosi niwed corfforol difrifol, fe fydd ef neu hi yn agored i'w herlyn am lofruddiaeth.

2.3 Trosedd y gellir ei dreialu trwy dditiad[4] yn unig yw hwn, gyda dedfryd orfodol o garchar am oes.

Dynladdiad

2.4 Lle lleddir rhywun yn anfwriadol, hynny yw lle nad oedd yn fwriad lladd, yna gall fod yn ddynladdiad.

2.5 Gellir treialu dynladdiad trwy dditiad yn unig ac mae'r ddedfryd uchaf yn garchar am oes.

2.6 Mae gwaharddiad am isafswm cyfnod o 2 flynedd cyn sefyll ail-brawf estynedig yn orfodol.

Achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus

2.7 Dan Adran 1 Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 mae'r trosedd yn cael ei gyflawni pan fydd y gyrru yn achosi marwolaeth rhywun arall a'i fod yn beryglus o fewn ystyr Adran 2A Deddf Traffig y Ffyrdd 1988.

2.8 Trosedd y gellir ei dreialu trwy dditiad yn unig yw hwn gydag uchafswm y ddedfryd yn 14 blynedd.

2.9 Mae gwaharddiad am isafswm cyfnod o 2 flynedd cyn sefyll ail-brawf estynedig yn orfodol.

[4]Ystyr treial trwy dditiad yw treial yn Llys y Goron gerbron barnwr a rheithgor.

Achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal dan ddylanwad diod neu gyffuriau

2.10 Dan Adran 3A Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 mae'r trosedd hwn yn cael ei gyflawni pan oedd y gyrru heb y gofal a'r sylw dyladwy neu heb ystyriaeth resymol i ddefnyddwyr eraill y ffordd; os yw'r gyrru wedi achosi marwolaeth person arall a bod y gyrrwr naill ai yn anffit oherwydd iddo gymryd diod neu gyffuriau, neu fod crynodiad yr alcohol yn ei gorff dros y terfyn rhagnodedig, neu y methwyd darparu sbesimen o anadl/gwaed/wrin yn rhinwedd y gyfraith.

2.11 Gellir treialu'r trosedd trwy dditiad yn unig ac mae'r ddedfryd uchaf yn garchar am 14 blynedd.

2.12 Mae gwaharddiad am isafswm cyfnod o 2 flynedd cyn sefyll ail-brawf estynedig yn orfodol.

Achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal neu'n anystyriol[5]

2.13 Dan Adran 2B Deddf Traffig y Ffyrdd 1988[6] mae'r trosedd hwn yn cael ei gyflawni pan oedd y gyrru heb y gofal a'r sylw dyladwy, neu heb ystyriaeth resymol i ddefnyddwyr eraill y ffordd; a bod y gyrru wedi achosi marwolaeth person arall.

2.14 Gellir treialu'r trosedd naill ai mewn llys ynadon neu yn Llys y Goron. Trwy dditiad mae uchafswm y ddedfryd yn garchar am 5 mlynedd.

[5]Nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n creu'r trosedd hwn mewn grym adeg ysgrifennu.
[6]Gosodwyd i mewn gan Adran 20 Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006.

2.15 Mae gwaharddiad rhag gyrru am isafswm o 12 mis yn orfodol.

Achosi marwolaeth trwy yrru heb drwydded, heb yswiriant neu wedi'i wahardd[7]

2.16 Dan Adran 3ZB Deddf Traffig y Ffyrdd 1988[8] mae'r trosedd hwn yn cael ei gyflawni pan fo gyrrwr yn achosi marwolaeth person arall trwy yrru ar ffordd pan fo heb drwydded, heb yswiriant neu wedi'i wahardd rhag dal neu gael trwydded yrru.

2.17 Gellir treialu'r trosedd naill ai mewn llys ynadon neu yn Llys y Goron. Trwy dditiad mae uchafswm y ddedfryd yn garchar am 2 flynedd.

2.18 Mae gwaharddiad rhag gyrru am isafswm o 12 mis yn orfodol.

Gyrru'n beryglus

2.19 Dan Adran 2A Deddf Traffig y Ffyrdd 1988 rhaid ystyried bod person yn gyrru'n beryglus os yw'r modd y mae ef neu hi yn gyrru yn syrthio lawer yn is na'r hyn a ddisgwylid gan yrrwr cymwys a gofalus ac y byddai'n amlwg i yrrwr cymwys a gofalus y byddai gyrru yn y modd hwnnw yn beryglus. Hefyd rhaid ystyried bod person yn gyrru'n beryglus os byddai'n amlwg i yrrwr cymwys a gofalus y byddai gyrru'r cerbyd yn ei gyflwr cyfredol yn beryglus.

[7]Nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n creu'r trosedd hwn mewn grym adeg ysgrifennu.
[8]Gosodwyd i mewn gan Adran 21 Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006.

2.20 Gellir treialu'r trosedd naill ai mewn llys ynadon neu yn Llys y Goron. Trwy dditiad mae uchafswm y ddedfryd yn garchar am 2 flynedd.

2.21 Mae gwaharddiad rhag gyrru am isafswm cyfnod o 12 mis cyn sefyll ail-brawf estynedig yn orfodol.

Gyrru diofal neu anystyriol

2.22 Mae gyrru diofal yn drosedd sy'n groes i Adran 3 Deddf Traffig y Ffyrdd 1988. Mae S3ZA y Ddeddf[9] honno yn diffinio gyrru diofal fel gyrru sy'n syrthio islaw'r hyn a ddisgwylid gan yrrwr cymwys a gofalus.

2.23 Ar gyfer gyrru anystyriol rhaid i'r erlyniad brofi yn ychwanegol fod y gyrru wedi achosi anghyfleustra i bobl eraill.

2.24 Trosedd y gellir ei dreialu yn y llys ynadon yn unig yw hwn.

2.25 Nid oes dedfryd o garchar am y trosedd. Dewisol yw gwaharddiad.

Gyrru'n ddi-hid a chynddeiriog

2.26 Mae gyrru'n ddi-hid a chynddeiriog yn hen drosedd – yn mynd yn ôl cyn dyfeisio'r injan hylosgiad mewnol – sy'n cael ei gynnwys yn Adran 35 Deddf Troseddau Corfforol 1861. Rhaid i'r erlyniad brofi bod y diffynnydd wedi gyrru'n beryglus (nid yw gyrru diofal yn ddigonol) ac wedi achosi niwed o ryw fath i berson arall.

[9]Gosodwyd i mewn gan Adran 30 Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006.

2.27 Ni chyfyngir y trosedd i ffordd neu fan cyhoeddus arall ac felly mae'n ddefnyddiol ar gyfer erlyn achosion lle digwyddodd y gyrru gwael oddi ar y ffordd.

2.28 Gellir treialu'r trosedd naill mewn llys ynadon neu yn Llys y Goron. Yn Llys y Goron mae uchafswm y ddedfryd yn garchar am 2 flynedd.

2.29 Bellach, mae pwyntiau cosb a gwaharddiad dewisol ar gael i lysoedd[10].

Cymryd Cerbyd Gwaethygol

2.30 Cafodd y trosedd hwn ei gyflwyno yn 1992 mewn ymateb i bryder cyhoeddus ynghylch yr hyn a elwid yn 'wefryrru' (*joyriding*). Cyn 1992, roedd hi'n drosedd dan Adran 12 Deddf Dwyn 1968 i gymryd cerbyd heb gydsyniad y perchennog, neu unrhyw un arall a allai roi caniatâd ar ran y perchennog. Roedd y trosedd hefyd yn cynnwys y rhai nad oeddynt mewn gwirionedd yn gyfrifol am gymryd y cerbyd, ond a yrrodd y cerbyd, neu a ganiataodd iddynt eu hunain gael eu cario yn y cerbyd ar ôl iddo gael ei gymryd, gan wybod iddo gael ei gymryd heb ganiatâd. Y mae'n parhau'n drosedd.

2.31 Fodd bynnag, nid oedd y trosedd gwreiddiol yn rhoi ystyriaeth i unrhyw yrru gwael ar y cerbyd ar ôl iddo gael ei gymryd yn anghyfreithlon, neu'r canlyniadau a allai ddilyn wrth i'r cerbyd gael ei yrru. Cyflwynwyd y trosedd gwaethygol er mwyn ymdrin â hyn.

[10]Adran 28 Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006.

2.32 Fe'i ceir yn Adran 12A Deddf Dwyn 1968 ac fe'i cyflawnir os, ar ôl i'r cerbyd gael ei gymryd yn anghyfreithlon ond cyn iddo gael ei adfer, y bydd un neu fwy o'r canlynol yn digwydd:

- y cerbyd yn cael ei yrru'n beryglus ar ffordd neu le cyhoeddus arall;
- oherwydd y modd y gyrrir y cerbyd, digwydd gwrthdrawiad sy'n achosi anaf i unrhyw berson;
- oherwydd y modd y gyrrir y cerbyd, digwydd gwrthdrawiad sy'n achosi difrod i unrhyw eiddo, heblaw'r cerbyd;
- achosir difrod i'r cerbyd.

2.33 Gellir treialu'r trosedd naill ai mewn llys ynadon neu yn Llys y Goron. Yn Llys y Goron mae uchafswm y ddedfryd fel arfer yn garchar am 2 flynedd, heblaw lle'r achosodd unrhyw wrthdrawiad farwolaeth y dioddefwr, a bryd hynny bydd uchafswm y ddedfryd yn garchar am 14 blynedd.

2.34 Mae gwaharddiad rhag gyrru am isafswm o 12 mis yn orfodol.

Swyddogaeth y CPS

3.1 Cyfrifoldeb yr heddlu yw ymchwilio i honiadau o droseddu a chasglu tystiolaeth am yr hyn a ddigwyddodd.

3.2 Cyfrifoldeb y CPS yw penderfynu ar y cyhuddiadau ym mhob achos ond y rhai lleiaf a'r rhai arferol a bydd ein herlynwyr yn gweithio gyda'r heddlu er mwyn sicrhau y

bydd achosion gyrru gwael yn cael eu nodi mor gynnar â phosib fel y gellir gwneud y penderfyniad cyhuddo priodol.

Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron

4.1 Mae'r ffordd y byddwn yn llunio ein penderfyniadau ynghylch erlyn ai peidio yn cael ei disgrifio yn y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron. Cyhoeddir y ddogfen hon gan y DPP. Bydd yn cael ei diweddaru yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu'r arferion cyfredol. Mae'r Côd yn ddogfen gyhoeddus. Ceir copïau gan Gangen Cyfathrebu y CPS, 50 Ludgate Hill, Llundain EC4M 7EX neu o swyddfeydd lleol y CPS, neu o'n gwefan.

http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/code.html

4.2 Byddwn yn adolygu'r achosion a gyfeirir atom yn unol â'r Prawf Côd Llawn a ddisgrifir yn y Côd. Mae'r prawf mewn dau gam[11]. Y cam cyntaf yw ystyried y dystiolaeth ac mae'r ail gam yn ymwneud â budd y cyhoedd.

Y cam cyntaf – y cam tystiolaethol

4.3 Yn gyntaf rhaid i Erlynwyr y Goron fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi "gobaith realistig o euogfarn yn erbyn pob diffynnydd ar bob cyhuddiad". Mae hyn yn golygu bod rheithgor neu fainc o ynadon, a dderbyniodd

[11]Ar gam cynnar pan na fydd yr holl dystiolaeth wedi dod i law ond na ellir gohirio'r penderfyniad i gyhuddo oherwydd na fyddai'n briodol rhoi mechnïaeth i'r diffynnydd, gall erlynwyr ddefnyddio'r hyn a elwir yn Brawf Trothwy. Fodd bynnag, unwaith y daw'r holl dystiolaeth i law rhaid gwneud y penderfyniad terfynol yn unol â'r Prawf Côd Llawn.

gyfarwyddwyd priodol yn unol â'r gyfraith, yn fwy tebygol na pheidio o farnu'r diffynnydd yn euog o'r cyhuddiad honedig.

4.4 Mae'r safon dystiolaethol a gymhwysir gennym, felly, yn wahanol i'r un a gymhwysir gan y llys cyn y gall farnu diffynnydd yn euog. Dyma'r rheswm pam nad yw'r holl achosion a erlynir yn arwain at euogfarn. Er bod achos o bosib yn pasio'r cam tystiolaethol yn y Prawf Côd Llawn, nid yw hynny o anghenraid yn golygu y bydd yr achos yn arwain at euogfarn. Mater i'r llys yw penderfynu a yw diffynnydd yn euog ar sail y dystiolaeth a glywodd neu a welodd.

4.5 Os nad yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol ar sail cryfder y dystiolaeth, ni ddylid bwrw ymlaen â'r achos, ni waeth pa mor bwysig neu ddifrifol ydyw. Y rheswm am hyn yw ein bod wedi barnu nad yw'r llys yn debygol o ddyfarnu'r diffynnydd yn euog o'r trosedd honedig ar y dystiolaeth sydd gennym. Mewn achosion o'r fath, mae'n anghywir erlyn y diffynnydd ac mae'n anghywir codi gobeithion dioddefwyr a thystion pan nad ydym o'r farn ei bod hi'n debygol y ceir euogfarn.

Yr ail gam – cam budd y cyhoedd

4.6 Os yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid i ni wedyn benderfynu a oes angen erlyn er budd y cyhoedd. Fel arfer fe fydd yr erlyniad yn mynd yn ei flaen "oni bai fod y ffactorau budd y cyhoedd sy'n gogwyddo yn erbyn erlyn yn amlwg yn fwy na'r ffactorau o'i blaid".

4.7 Rydym yn ystyried gyrru gwael yn rhywbeth difrifol, yn enwedig ble'r arweiniodd yn uniongyrchol at farwolaeth neu anaf difrifol i berson arall. O ganlyniad, o ran budd y cyhoedd mewn achosion gyrru gwael, lle bu marwolaeth neu anaf difrifol i berson arall, fe fydd bron bob amser o blaid erlyn.

4.8 Fodd bynnag, fe fydd yna bob amser achosion ble byddwn yn penderfynu nad yw erlyn er budd y cyhoedd.

4.9 Er ein bod yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd yn gyffredinol ac nid er budd unrhyw unigolyn neilltuol, fe fyddwn bob amser yn meddwl yn ofalus iawn am les y dioddefwr a'u teulu wrth benderfynu ynghylch budd y cyhoedd[12].

4.10 Nid yw'n hawdd taro ar y cydbwysedd hwn bob amser. Mae safbwyntiau'r dioddefwr a'u teulu yn bwysig, ond ni ellir rhoi'r gair olaf iddynt ar fater erlyniad.

Achosion Anwyliaid

4.11 Yn y gorffennol, defnyddiodd y CPS ymdriniaeth wahanol mewn achosion lle bu farw rhywun a bod yr ymadawedig mewn perthynas agos neu'n rhan o deulu'r gyrrwr. Gwnaed hyn ar sail yr egwyddor bod y gyrrwr wedi profi colled bersonol mor enfawr fel y byddai'n ormesol ac ansensitif erlyn y gyrrwr am y trosedd gyrru gwael a arweiniodd at y farwolaeth.

[12]Y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron Paragraffau 5.12 a 5.13.

4.12 Er bod yn rhaid i ni allu arfer ein doethineb bob tro mewn achosion lle byddai erlyn yn ormesol neu'n ansensitif, credwn y bydd budd y cyhoedd fel arfer yn mynnu y cynhelir erlyniad mewn achosion o achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus neu achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal dan ddylanwad diod neu gyffuriau neu fethu â darparu sbesimen, a dyna bellach yw ein polisi yn yr achosion hyn.

4.13 Mae Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006[13] yn cyflwyno troseddau newydd o achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal ac achosi marwolaeth trwy yrru tra boch heb yswiriant, wedi'ch gwahardd neu heb drwydded. Yn yr achosion hyn gallwn arfer ein doethineb i beidio ag erlyn mewn achosion lle mae graddau'r euogrwydd ar ran y gyrrwr yn isel, neu lle byddai amgylchiadau'r achos yn ei gwneud yn anghyfiawn erlyn.

4.14 Mewn achosion o'r fath, gallwn ystyried a wnaeth, er enghraifft, safon y gyrru syrthio'n is na'r hyn sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith o ganlyniad i wir gamfarnu yn unig.

4.15 Lle digwyddodd yr anghyfreithlondeb o ganlyniad i wir gamgymeriad ar ran y gyrrwr, er enghraifft, credu'n wallus fod ganddo ef neu hi yswiriant, nid yw'n dilyn o anghenraid y byddai hi er budd y cyhoedd bwrw ymlaen i erlyn y gyrrwr lle'r oedd yr ymadawedig yn berthynas neu'n ffrind agos.

[13]Ar 6.12.07 nid oedd y darpariaethau hyn mewn grym.

Erlyn achosion o yrru gwael

5.1 Byddwn yn mynd ati'n weithredol i geisio rhagor o wybodaeth gan yr heddlu cyn gwneud penderfyniad cyhuddo. Ym mhob achos, dylai erlynwyr gysylltu yn uniongyrchol â'r swyddog yn yr achos er mwyn gwneud yn siwr bod yr holl dystiolaeth sydd ar gael wedi'i chasglu a'i hanfon at y CPS fel y gallwn adolygu'r achos yn llawn. Os bydd angen, byddwn yn cynghori'r heddlu i ddilyn trywyddau ymholi eraill.

Arfer Cyhuddo y CPS

5.2 Rhaid i holl Erlynwyr y Goron gymhwyso'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron wrth ystyried cyhuddiadau. Fel y gwelsom, rhaid i'r erlynydd ystyried a oes digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn, gan gofio'r safonau prawf hynod uchel a gymhwysir yn y llysoedd troseddol; ac, os oes digon o dystiolaeth, a yw hi er budd y cyhoedd bwrw ymlaen â'r achos.

5.3 Dylai'r cyhuddiadau y penderfynwn eu dewis mewn unrhyw erlyniad bob amser adlewyrchu amgylchiadau'r trosedd. Rhaid i'r cyhuddiadau ein helpu i gyflwyno'r achos yn glir a syml a rhaid iddynt roi'r grym i'r llys osod dedfryd briodol.

Dynladdiad

5.4 Gall trosedd dynladdiad godi mewn dwy wahanol ffordd: dynladdiad trwy weithred anghyfreithlon a dynladdiad trwy esgeuluster garw.

5.5 Mewn termau cyffredinol iawn, gall dynladdiad trwy weithred anghyfreithlon fod yn gymwys lle cafodd cerbyd ei ddefnyddio'n fwriadol fel arf i ymosod. Gall dynladdiad trwy esgeuluster garw fod yn gymwys mewn sefyllfa lle nad oes bwriad i ddefnyddio'r cerbyd fel arf i ymosod, ond bod safon y gyrru yn syrthio mor isel islaw'r safon ofynnol fel bod risg ddifrifol ac amlwg o farwolaeth a bod ymddygiad y diffynnydd, yn yr holl amgylchiadau, 'mor geryddadwy nes bod yn esgeuluster garw'[14].

Dynladdiad trwy weithred anghyfreithlon

5.6 Rhaid profi:

- mai gweithred y diffynnydd a achosodd farwolaeth y dioddefwr;
- bod gweithred y diffynnydd yn drosedd ynddi'i hun;
- bod gan y diffynnydd y mens rea yn briodol i'r weithred anghyfreithlon a achosodd farwolaeth y dioddefwr; a
- bod gweithred anghyfreithlon y diffynnydd yn cael ei chydnabod yn wrthrychol yn weithred sy'n gosod y dioddefwr dan risg o ryw niwed corfforol, er nad niwed difrifol o anghenraid.

5.7 Ystyrir mai dynladdiad trwy weithred anghyfreithlon fydd y cyhuddiad mwyaf priodol pan fo tystiolaeth i brofi y cafodd cerbyd ei ddefnyddio fel arf i ymosod (ond lle bo'r bwriad angenrheidiol i lofruddio yn absennol), neu i achosi dychryn, a bod marwolaeth yn deillio o hynny.

[14] R v Misra & Srivastava [2005] 1 Cr. App. R. 21 para 48.

5.8 Gall dynladdiad trwy weithred anghyfreithlon ddigwydd mewn amryw o ffyrdd. Er enghraifft, efallai y bydd gyrrwr yn gyrru'n fwriadol at berson neu grŵp o bobl gyda'r bwriad o achosi iddynt ofni y bydd y cerbyd yn eu taro. Mae'n bosib nad yw'r gyrrwr yn bwriadu eu taro â'r car mewn gwirionedd, ond os bydd yn gwneud hynny a rhywun yn cael ei ladd o ganlyniad, fe all fod yn euog o ddynladdiad trwy weithred anghyfreithlon. Os bydd rhywun yn cael ei niweidio, gellir erlyn y diffynnydd am ymosod.

5.9 Mae gwahaniaeth rhwng yr achosion hyn ac achosion gyrru gwael lle bu rhywun farw o ganlyniad i yrru sy'n anghyfreithlon oherwydd y dull esgeulus y cafodd ei gyflawni yn unig[15].

5.10 Mewn achosion lle bu rhywun farw o ganlyniad i yrru gwael a'i bod hi'n eglur y bu safon y gyrru yn arw o esgeulus ar ran y gyrrwr, mae'n bosib mai cyhuddiad o ddynladdiad trwy esgeuluster garw yw'r cyhuddiad cywir, fel yr esbonir isod.

Dynladdiad trwy esgeuluster garw

5.11 Er mwyn profi cyhuddiad ar sail dynladdiad trwy esgeuluster garw, rhaid i'r erlyniad ddangos bod ar y diffynnydd ddyletswydd gofal tuag at y dioddefwr; mai'r gyrru a achosodd farwolaeth y dioddefwr; bod y gyrru lawer yn is na'r isafswm safon dderbyniol ar gyfer gyrru; bod perygl marwolaeth yn amlwg a difrifol; ac y gellir

[15] Andrews v DPP [1937] AC 576.

disgrifio ymddygiad y diffynnydd, yn yr holl amgylchiadau, yn ymddygiad 'ceryddadwy.

5.12 Mae rhai o blith y cyhoedd o'r farn y dylem yn aml gyhuddo pobl o ddynladdiad trwy esgeuluster garw yn hytrach nag achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus.

5.13 Mae dwy ddadl a roddir gerbron i gefnogi'r safbwynt hwn:

- yn gyntaf, bod y cyhoedd bellach yn gynyddol lai goddefgar o yrru gwael ac y gall euogfarnau am ddynladdiad trwy esgeuluster garw fod yn fwy tebygol;

- yn ail, oherwydd bod dynladdiad yn arwain at uchafswm cosb sy'n uwch, ei fod yn well adlewyrchiad o ddifrifoldeb y trosedd.

5.14 Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa yn un rhwydd. Gall erlynwyr fod ag un neu fwy o droseddau statudol ar gael iddynt (achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus ac achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal tra'n anffit oherwydd diod neu gyffuriau) mewn achosion lle digwyddodd gwrthdrawiad angheuol a achoswyd gan yrru gwael. Cyn y ffafrir cyhuddiad o ddynladdiad trwy esgeuluster garw, rhaid bod rhywbeth sy'n gosod yr achos ar wahân i un lle gellir profi un o'r troseddau statudol.

5.15 Fel mater o gyfraith, mae'n fwy anodd profi trosedd o ddynladdiad trwy esgeuluster garw nag yw hi i brofi trosedd o achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus. Nid oes angen bod â thystiolaeth o berygl marwolaeth amlwg a difrifol er mwyn profi trosedd o achosi marwolaeth trwy

yrru'n beryglus. Y cyfan sydd ei angen yw tystiolaeth bod y gyrru yn beryglus a bod y gyrru wedi achosi marwolaeth person arall.

5.16 Mae'n gywir bod trosedd dynladdiad â phosibilrwydd o ddedfryd fwy llym na throsedd achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus, eto y mae'r llysoedd, dros y blynyddoedd, ar y cyfan wedi rhoi dedfrydau sydd yn sicr o fewn – weithiau'n sylweddol is – na'r ddedfryd uchaf sydd ar gael ar gyfer achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus.

5.17 Ni fyddwn, felly, ond yn cyhuddo rhywun o ddynladdiad trwy esgeuluster garw mewn achosion lle bo tystiolaeth i ddangos risg uchel iawn o farwolaeth, gan wneud yr achos yn un hynod ddifrifol.

5.18 Dan ddarpariaethau Adran 33 Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006, mae rheithgorau bellach yn gallu penderfynu ar reithfarnau amgen ar gyfer troseddau achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus, gyrru'n beryglus, achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal tra bo dan ddylanwad diod neu gyffuriau a gyrru'n gynddeiriog, lle nad ydynt yn fodlon fod yr erlyniad wedi cyflwyno achos llwyddiannus ar gyfer dynladdiad. Nid dyma'r achos yn y gorffennol.

5.19 Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer rheithfarn amgen yn darparu rhyw fath o rwyd ddiogelwch i'r erlyniad, ond rhaid bod digon o dystiolaeth o hyd i roi gobaith realistig o euogfarn am ddynladdiad a rhaid iddo barhau i fod y cyhuddiad mwyaf priodol, cyn y gwneir penderfyniad i gyhuddo am ddynladdiad.

5.20 Yn y rhan fwyaf o achosion lle bu rhywun farw o ganlyniad i yrru peryglus, y trosedd statudol o achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus fydd y cyhuddiad priodol o hyd.

Achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus neu'n ddiofal

5.21 Nid yw Adran 1, Adran 2B[16] nac Adran 3A Deddf Traffig y Ffyrdd 1988, yn mynnu bod yr erlyniad yn profi y gellid rhagweld y farwolaeth. Y cyfan y mae'n rhaid i'r erlyniad ei wneud yw profi bod y cerbyd yn cael ei yrru'n beryglus neu'n ddiofal a bod y gyrru wedi achosi marwolaeth person arall. Felly mae'r gwahaniaeth ansoddol hanfodol rhwng y troseddau yn dibynnu ar safon y gyrru.

5.22 Mae'r ddau drosedd yn wrthrychol yn yr ystyr nad yw cyflwr meddwl y diffynnydd fel arfer yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu a oedd y diffynnydd yn gyrru yn beryglus neu'n ddiofal. Os yw diffynnydd yn credu'n ddiffuant nad oedd ei yrru ef neu hi yn beryglus dan yr amgylchiadau, mae hynny'n amherthnasol.

5.23 Yn y ddau drosedd, mae'n rhaid i'r gyrrwr fod wedi ymadael â safon gyrrwr cymwys a gofalus, ond y gwahaniaeth allweddol rhwng y troseddau yw i ba raddau y bydd y gyrru'n syrthio'n is na'r safon ofynnol:

- er mwyn bod yn beryglus, rhaid i'r gyrru syrthio 'ymhell islaw' y safon ofynnol;
- er mwyn bod yn ddiofal, y cyfan sydd ei angen yw i'r gyrru syrthio 'yn is' na'r safon ofynnol.

[16]Ar 6.12.07 nid oedd yr adran hon mewn grym.

Achosi marwolaeth trwy yrru heb drwydded, heb yswiriant neu wedi'i wahardd

5.24 Ar gyfer y trosedd hwn nid oes angen unrhyw brawf bod y gyrru wedi syrthio'n is nag unrhyw safon sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Byddwn yn dewis y cyhuddiad hwn lle bu rhywun farw o ganlyniad i yrru anghyfreithlon mewn un neu fwy o'r tri amgylchiad anghyfreithlon a nodir yn Adran 21 Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006. Lle bo tystiolaeth i'r gyrru syrthio'n is na'r safon ofynnol, bydd cyhuddiad sy'n ymgorffori gyrru'n beryglus neu'n ddiofal yn fwy priodol.

Gyrru'n beryglus

5.25 Mae gyrru'n beryglus nid yn unig yn cynnwys sefyllfaoedd lle bydd y gyrrwr wedi gwneud penderfyniad bwriadol i yrru mewn modd neilltuol ond y mae hefyd yn cynnwys sefyllfaoedd lle bo gyrrwr wedi gwneud camgymeriad neu gamfarn a oedd mor sylweddol nes achosi i'r gyrru fod yn beryglus hyd yn oed os yw hynny am amser byr yn unig.

5.26 Fe fydd amgylchiadau pob achos yn unigryw a byddwn yn eu hystyried ym mhob achos cyn llunio penderfyniad ynghylch lefel briodol y cyhuddiad.

5.27 Mae yna achosion a benderfynwyd sy'n darparu peth arweiniad ynghylch y math o yrru y bydd llysoedd yn ei ystyried yn beryglus ac mae'r enghreifftiau canlynol yn nodweddiadol o'r hyn yr ydym yn debygol o'i ystyried yn yrru peryglus:

- rasio neu yrru'n gystadleuol;

- cyflymder, sy'n hynod amhriodol ar gyfer cyflwr cyfredol y ffordd neu'r traffig;
- gyrru ymosodol, megis newid lôn yn sydyn, torri i mewn i linell o gerbydau neu yrru'n llawer rhy agos at y cerbyd o'i flaen;
- anwybyddu goleuadau traffig ac arwyddion ffyrdd eraill, sydd, o'i ddadansoddi'n wrthrychol, yn ymddangos fel petai'n fwriadol;
- anwybyddu rhybuddion gan gyd-deithwyr;
- goddiweddyd na ellid ei gyflawni'n ddiogel;
- gyrru cerbyd gyda llwyth sy'n golygu perygl i ddefnyddwyr eraill y ffordd;
- lle bo'r gyrrwr yn dioddef o amhariad ar ei allu, megis bod â braich neu goes mewn plastr, neu nam ar eu golwg;
- gyrru tra bo'n rhy flinedig i aros yn effro;
- gyrru cerbyd gan wybod bod arno nam peryglus;
- defnyddio ffôn symudol sy'n cael ei ddal yn y llaw neu offer electronig arall sy'n cael ei ddal yn y llaw pan oedd defnydd o'r fath yn tynnu sylw'r gyrrwr yn beryglus a heb eisiau;
- darllen papur newydd/map;
- siarad gyda theithiwr ac edrych ar deithiwr pan oedd hynny'n tynnu sylw'r gyrrwr yn beryglus a heb eisiau;
- dewis a thanio sigarét, neu debyg, mewn amgylchiadau lle'r oedd hynny'n tynnu sylw'r gyrrwr yn beryglus a heb eisiau.

Gyrru diofal/anystyriol

5.28 Fel gyda gyrru peryglus, fe fydd amgylchiadau pob achos o yrru'n ddiofal neu'n anystyriol yn unigryw a byddwn yn eu

hystyried cyn llunio penderfyniad ynghylch lefel briodol y cyhuddiad.

5.29 Gall pobl yrru'n ddiofal neu'n anystyriol gyda chanlyniadau trasig. Dan y gyfraith fel y mae ar hyn o bryd, mae canlyniad gweithredoedd y gyrrwr yn amherthnasol i lefel y cyhuddiad a ddewisir.

5.30 Fe fydd hynny'n newid gyda chyflwyniad y trosedd newydd o achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal[17].

5.31 Ni fydd y prawf a gymhwyswn yn newid. Fodd bynnag, os byddwn yn penderfynu bod y gyrru yn ddiofal ac wedi achosi marwolaeth, yna y cyhuddiad priodol, dan y ddeddfwriaeth newydd, fydd achosi marwolaeth trwy yrru'n ddiofal.

5.32 Mae yna achosion a benderfynwyd sy'n darparu peth arweiniad ynghylch y math o yrru y bydd llysoedd yn ei ystyried yn ddiofal neu'n anystyriol ac mae'r enghreifftiau canlynol yn nodweddiadol o'r hyn yr ydym yn debygol o'i ystyried yn yrru diofal neu anystyriol:

Gyrru Diofal

- goddiweddyd ar yr ochr fewnol;
- gyrru'n amhriodol o agos at gerbyd arall;
- gyrru trwy olau coch trwy amryfusedd;
- dod allan o isffordd i lwybr cerbyd arall;
- tiwnio radio car;
- defnyddio ffôn symudol sy'n cael ei ddal yn y llaw neu

[17]Adran 20 Deddf Diogelwch y Ffyrdd 2006.

offer electronig arall sy'n cael ei ddal yn y llaw pan oedd defnydd o'r fath yn tynnu sylw'r gyrrwr heb eisiau;
- dewis a thanio sigarét, neu debyg, lle'r oedd hynny'n tynnu sylw'r gyrrwr heb eisiau.

Gyrru Anystyriol

- fflachio goleuadau er mwyn gorfodi gyrwyr eraill o'u blaen i symud o'r ffordd;
- camddefnyddio unrhyw lôn er mwyn osgoi bod mewn ciw neu i gael rhyw fantais arall dros yrwyr eraill;
- aros mewn lôn oddiweddyd heb fod angen;
- gyrru'n araf heb fod angen neu frecio heb reswm da;
- gyrru gyda'r prif oleuadau heb eu gostwng gan ddallu gyrwyr sy'n dod i'w cyfeiriad;
- gyrru trwy bwll gan achosi i ddŵr dasgu dros gerddwyr;
- gyrru bws yn y fath fodd nes dychryn y teithwyr.

Gyrru'n Ddi-hid a Chynddeiriog

5.33 Wnawn ni ond erlyn ar gyfer y trosedd hwn pan nad yw'n bosib erlyn am drosedd dan ddeddfwriaeth traffig y ffyrdd, er enghraifft:

- pan nad oedd y gyrru ar ffordd neu le cyhoeddus arall;
- pan nad oedd y cerbyd a ddefnyddiwyd yn gerbyd peiriannol (megis beic neu gerbyd sy'n cael ei dynnu gan geffyl).

5.34 Pan fydd cerbyd wedi cael ei ddefnyddio yn fwriadol fel arf a'i fod wedi achosi anaf, fe fyddwn fel arfer yn erlyn ar gyfer trosedd gyrru'n beryglus, neu ymosodiad neilltuol

dan ddarpariaethau eraill yn Neddf Troseddau Corfforol 1861, yn amodol ar fod â digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn ar gyfer un o'r troseddau hynny.

Cymryd Cerbyd Gwaethygol

5.35 Gallwn ddefnyddio'r cyhuddiad hwn lle'r oedd y cerbyd a gâi ei yrru'n wael wedi cael ei gymryd heb gydsyniad y perchennog neu berson arall a awdurdodwyd i roi caniatâd.

5.36 Lle bo dull y gyrru yn syrthio lawer yn is na'r safon ofynnol mae'n debyg y cyhuddir y gyrrwr o yrru'n beryglus, oherwydd o'i ddyfarnu'n euog am y trosedd hwnnw mae gan y llys y grym i orchymyn y dylai'r gyrrwr gymryd ail brawf cyn gyrru eto, sef grym nad yw ar gael ar gyfer euogfarn am gymryd cerbyd gwaethygol.

5.37 Lle bo tystiolaeth o yrru peryglus sy'n arwain at wrthdrawiad angheuol, fel arfer byddwn yn cyhuddo'r gyrrwr o drosedd o achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus, fel bod gan y llys dedfrydu y grym i orchymyn y gyrrwr i gymryd ail brawf estynedig cyn gyrru eto. Nid yw'r grym hwn ar gael am gymryd cerbyd gwaethygol.

5.38 Lle nad oes unrhyw dystiolaeth bod dull y gyrru yn syrthio yn is na'r safon ofynnol, ond fod tystiolaeth bod y cerbyd wedi'i gymryd heb ganiatâd, byddwn yn cyhuddo'r diffynnydd o gymryd cerbyd gwaethygol lle bu gwrthdrawiad ac y bu i'r gwrthdrawiad achosi naill ai niwed personol neu ddifrod i eiddo heblaw'r cerbyd. Byddwn yn defnyddio'r cyhuddiad hefyd mewn achosion

lle nad oes tystiolaeth o wrthdrawiad ond fod tystiolaeth o ddifrod i'r cerbyd ei hun.

Ffactorau cyffredin i'w hystyried

5.39 Credwn ei bod yn briodol cyfeirio at enghreifftiau megis y rhai a roddir uchod wrth roi cyfarwyddyd i'n herlynwyr, fel y bydd eu penderfyniadau mor gyson â phosib; ond y cyfan a wna enghreifftiau yw darlunio'r hyn a all fod yn yrru peryglus, diofal neu anystyriol. Fe fyddwn ni bob amser yn rhoi ffeithiau pob achos yn eu cyd-destun, ac ystyried a yw'r amgylchiadau neilltuol yn gwarantu cyhuddiad o yrru'n beryglus ynteu yrru'n ddiofal.

5.40 Mewn llawer o erlyniadau, wrth wneud y penderfyniad, fe fydd hi'n glir a oedd y gyrru yn beryglus ynteu'n ddiofal, ond fe fydd yna'n dal achosion sy'n syrthio i'r tir canol lle mae'r ddau drosedd yn cwrdd.

Amodau ar y ffordd

5.41 Mae'n bosib y bydd gyrru sy'n syml yn syrthio'n is na'r safon a ddisgwylir gan yrrwr cymwys a gofalus mewn rhai amodau yn syrthio lawer yn is na'r safon ofynnol mewn amodau eraill a dod yn beryglus. Er enghraifft, efallai y bydd tystiolaeth o weledegd gwael, amodau tywydd anffafriol neu ddaearyddiaeth anodd, megis corneli dall.

Cyflymder

5.42 Mae tystiolaeth o gyflymder gormodol yn enghraifft arall o hyn. Lle bo tystiolaeth o gyflymder affwysol ormodol, neu

gyflymder sydd, er nad yn affwysol ormodol, yn beryglus o ganlyniad i'r amodau ar y ffordd ar y pryd, gallai cyhuddiad o yrru'n beryglus fod yn briodol. Adolygir pob achos yn unol â'i ffeithiau neilltuol.

Rheolau'r Ffordd Fawr

5.43 Rhoddir ystyriaeth i lawer o'r sefyllfaoedd hyn yn Rheolau'r Ffordd Fawr, a adolygwyd yn 2007. Fe fyddwn bob amser yn ystyried unrhyw dystiolaeth o dorri Rheolau'r Ffordd Fawr, a chanlyniadau hynny o ran safon y gyrru, wrth benderfynu ar lefel briodol y cyhuddiad.

Ffonau Symudol a Dyfeisiau sy'n cael eu dal yn y Llaw

5.44 Mae'r ymatebion i'n hymgynghoriad cyhoeddus yn 2007 yn dangos mor ddifrifol yw barn cymdeithas am beryglon posib defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau eraill sy'n cael eu dal yn y llaw, wrth yrru. Mewn achosion lle'r oedd defnydd o'r fath yn tynnu sylw'r gyrrwr yn beryglus a heb eisiau, cyhuddiad o yrru'n beryglus fydd y man cychwyn ar gyfer ein penderfyniadau cyhuddo.

Troseddau sy'n cynnwys Cyrff Corfforaethol

5.45 Byddwn yn sicrhau y bydd achosion sy'n cynnwys gyrru gwael yn y gweithle yn cael eu hadolygu nid yn unig i sefydlu a ddylid erlyn y gyrrwr am unrhyw drosedd neu droseddau, ond hefyd i ddarganfod a oes tystiolaeth i ddangos y cyflawnwyd trosedd neu droseddau gan gyflogwr y gyrrwr.

5.46 Mae gennym brotocol[18] gyda'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch a'r heddlu ar gyfer ymchwilio ac erlyn marwolaethau sy'n gysylltiedig â gwaith a bydd ein herlynwyr yn sicrhau y cysylltir yn fuan mewn achosion priodol ble'r achoswyd marwolaeth o'r fath.

Gofalu am Ddioddefwyr a Thystion

6.1 Un o'n hamcanion strategol yw eiriol ar ran cyfiawnder a hawliau dioddefwyr. Dim ond trwy wneud hynny y byddwn yn ennyn hyder y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

6.2 Mae'r ymrwymiad hwn yn berthnasol i'n holl waith yn ymdrin â gyrru gwael, ond yn unlle yn fwy nag yn ein hymdriniaeth o ddioddefwyr, eu teuluoedd, eu cyfeillion a thystion, mewn achosion lle bu rhywun farw neu lle'r achoswyd anaf difrifol.

6.3 Yn y pum mlynedd diwethaf, cymerwyd nifer o gamau i gyflawni hyn.

Cyfathrebu'n Uniongyrchol â Dioddefwyr

6.4 Er 2001 rydym wedi ysgrifennu at yr holl ddioddefwyr gan gynnwys aelodau teuluoedd mewn profedigaeth mewn achosion lle penderfynwyd terfynu achos neu newid y cyhuddiad yn sylweddol. Mewn achosion lle bu marwolaeth, byddwn yn cynnig cwrdd â'r teulu er mwyn esbonio'r penderfyniad. Mae'r ymrwymiadau hyn bellach yn rhan o'r Côd Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd[19].

[18] http://www.cps.gov.uk/publications/agencies/wrdprotocol.html
[19] http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/victims_code.pdf

Addewid yr Erlynwyr

6.5 Ym mis Hydref 2005, cyhoeddodd y CPS Addewid yr Erlynwyr[20]. Dyma Ddatganiad Polisi Cyhoeddus y CPS ar Drin Dioddefwyr a Thystion ac mae'n disgrifio'r deg safon gwasanaeth y gall dioddefwyr a thystion ddisgwyl eu derbyn gan ein herlynwyr.

6.6 Ers diwedd 2005, bu Unedau Gofal Tystion ledled Cymru a Lloegr. Yno, bydd anghenion yr holl dystion yn cael eu hasesu a rhoddir gwybodaeth am gynnydd yr achos yn uniongyrchol i'r dioddefwr, neu eu teulu, neu drwy Swyddog Cyswllt Teuluol (FLO) yr heddlu, mewn achosion lle bu rhywun farw.

Y Cynllun Canolbwyntio ar Ddioddefwyr

6.7 Rydym bellach yn cynnig gwell gwasanaeth i'r bobl a gollodd aelod agos o'r teulu mewn achosion gyrru gwael sy'n destun cyhuddiad a wrandewir yn Llys y Goron. Hwn yw'r Cynllun Canolbwyntio ar Ddioddefwyr[21].

6.8 Dan y cynllun hwn, bydd erlynwyr yn cwrdd â theuluoedd mewn profedigaeth yn gynnar yn yr achos er mwyn egluro'r penderfyniadau cyhuddo ac wedi hynny i'w helpu i ddeall ac ateb eu cwestiynau am broses y llys. Bydd yr erlynydd yn egluro bod ganddynt y dewis, os ydynt yn dymuno, i wneud datganiad personol dioddefwyr. Datganiad yw hwn a wneir gan aelod o'r teulu mewn profedigaeth neu ar eu rhan, ynghylch y modd y mae

[20] http://www.cps.gov.uk/publications/prosecution/prosecutor_pledge.html
[21] http://www.cps.gov.uk/victims_witnesses/focus_scheme.html

marwolaeth yr aelod o'u teulu wedi effeithio arnynt.

Terminoleg

6.9 Rydym yn cydnabod y trallod y gellir ei achosi i ddioddefwyr a'u teuluoedd pan gyfeirir at achosion gyrru gwael fel 'damweiniau'. Ni fyddwn yn defnyddio'r term hwn. Byddwn yn defnyddio'r term 'gwrthdrawiad' i gyfeirio at yr holl achosion gyrru gwael a fydd yn cynnwys marwolaeth neu niwed difrifol.

Cwrdd â Dioddefwyr a Theuluoedd yn y Llys

6.10 Lle bo modd, mewn achosion lle bu rhywun farw o ganlyniad i yrru gwael, byddwn yn sicrhau bod y cyfreithydd adolygu yn mynychu'r llys er mwyn cwrdd â'r teulu mewn profedigaeth a chynnal yr erlyniad lle bo hynny'n bosib. Os nad y cyfreithydd adolygu yw'r adfocad, bydd yr adfocad yn cwrdd â'r teulu mewn profedigaeth hefyd.

Cwest

6.11 Ble'r ystyrir hi'n fuddiol gwneud hynny, bydd y cyfreithydd adolygu yn mynychu cwest lle bo'r achos troseddol perthynol yn dal heb ei gwblhau.

Mechnïaeth

6.12 Weithiau cyn i ddiffynnydd cael ei gyhuddo o drosedd, a phob tro ar ôl hynny, bydd yr heddlu yn penderfynu a ddylid rhyddhau'r diffynnydd ar fechnïaeth ai peidio. Gallai

hyn fod yn ôl i swyddfa'r heddlu, neu i fynychu'r gwrandawiad llys nesaf sydd ar gael. Y penderfyniad fydd rhyddhau ar fechnïaeth neu gadw'r person yn y ddalfa. Pan fydd y diffynnydd yn ymddangos gerbron y llys, bydd yr ynadon, Barnwr Ardal neu, mewn rhai achosion, barnwr Llys y Goron, yn penderfynu ynghylch mechnïaeth ar ôl clywed gan yr erlyniad a'r amddiffyniad. Mewn rhai amgylchiadau, gall y CPS apelio yn erbyn penderfyniad i ganiatáu mechnïaeth.

6.13 Mewn achosion gyrru gwael, lle bo risg y bydd y diffynnydd yn cyflawni trosedd gyrru gwael arall tra bo ar fechnïaeth, gallwn ofyn i'r llys osod amodau ar y fechnïaeth, neu gadw'r diffynnydd yn y ddalfa. Ni all y llys wneud hyn oni bai ein bod yn gallu dangos bod seiliau sylweddol dros wrthod mechnïaeth neu osod amodau.

6.14 Mewn achos gyrru gwael, yr amod mwyaf priodol yw i'r diffynnydd beidio â gyrru unrhyw gerbydau modur. Os gosodir amod ac y'i torrir, gall yr heddlu arestio'r diffynnydd a gall y llys gadw'r diffynnydd yn y ddalfa.

6.15 Lle bo'n briodol gwneud hynny, bydd ein herlynwyr yn gwahodd y llys i wrthod mechnïaeth neu i ganiatáu mechnïaeth, yn amodol ar amod neu amodau addas

Derbyn Pledion

6.16 Fe fydd yna achosion ble bydd y diffynnydd yn dewis pledio'n euog i gyhuddiad gwahanol neu i rai o'r cyhuddiadau gerbron y llys ond nid y cyfan.

6.17 Fe fydd yna hefyd achosion ble bydd y diffynnydd yn dewis pledio'n euog i'r cyhuddiad neu'r cyhuddiadau presennol, ar sail rhai ffeithiau neilltuol.

6.18 Gallai hyn godi, er enghraifft, petai tystiolaeth newydd yn dod i'r fei ar ôl y penderfyniad cyhuddo gwreiddiol.

6.19 Dylai'r canllawiau ei gwneud yn eglur na ddylem ni ond derbyn y ple os ydym yn credu y gall y llys basio dedfryd sy'n cyfateb i ddifrifoldeb y troseddu.

6.20 Dan y Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron mae'n rhaid i ni ystyried buddiannau a safbwyntiau'r dioddefwr, neu'r teulu mewn profedigaeth, wrth benderfynu a ddylid derbyn unrhyw ble o'r fath.

6.21 Er mai y ni fydd yn gwneud y penderfyniad, fe fyddwn yn ymgynghori â'r dioddefwr, neu'r teulu mewn profedigaeth, yn unol â'r Côd i Ddioddefwyr, Addewid yr Erlynwyr a'r Cynllun Canolbwyntio ar Ddioddefwyr, cyn y gwneir y penderfyniad.

6.22 Fe fyddwn ni hefyd yn dilyn y Canllawiau ar Dderbyn Pledion a Swyddogaeth yr Erlynydd wrth ddedfrydu, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2005 gan y Twrnai Cyffredinol. Maent yn pwysleisio y dylid cynnal y cam derbyn pledion yn y llys agored, heblaw yn yr amgylchiadau mwyaf eithriadol, fel y gallwn esbonio ein rhesymau dros dderbyn pledion yn gyhoeddus.

Dedfrydu

7.1 Byddwn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol gan y llys fel y gall ddedfrydu'n briodol. Yn 2007, cyflwynodd y Twrnai Cyffredinol system[22] sy'n mynnu ein bod yn paratoi yr hyn a elwir yn ddogfen ple a dedfryd ym mhob achos a ddaw gerbron Llys y Goron a phob achos cymhleth a ddaw gerbron llysoedd ynadon. Anfonir y ddogfen hon i'r llys cyn y gwrandawiad perthnasol lle rhoddir y ddedfryd.

7.2 Yn y ddogfen honno, rydym yn rhoi'r wybodaeth ganlynol i'r llys:

- ffactorau gwaethygol a lliniarol y trosedd (nid lliniaru personol);
- unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n berthnasol i'r troseddwr a'r trosedd dan ystyriaeth, fel y gellir gwneud y barnwr yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau statudol o ran dedfrydu;
- unrhyw Ganllawiau Dedfrydu ac achosion canllaw perthnasol;
- unrhyw ddatganiad personol gan ddioddefwyr, neu wybodaeth arall sydd ar gael i adfocad yr erlyniad ynghylch effaith y trosedd ar y dioddefwr;

[22]http://www.attorneygeneral.gov.uk/attachments/AG%20letter%20to%20all%20prosecutors%208%20June%2007.pdf

- lle bo'n briodol, unrhyw dystiolaeth o effaith y troseddu ar gymuned;

- arwydd, lle bo'n gymwys, o fwriad i wneud cais am unrhyw orchmynion ategol, megis gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol a gorchmynion atafaelu.

7.3 Ble bydd oedi rhwng dyddiad yr euogfarn a'r dyddiad pryd y bydd y llys yn dedfrydu, byddwn yn atgoffa'r llys o'i rym i osod gwaharddiad interim ar ddiffynnydd ble byddai'n gyfreithlon i'r llys wneud hynny.

7.4 Byddwn yn cywiro unrhyw wybodaeth gamarweiniol a roddir gan yr amddiffyniad ac ystyried yn ofalus unrhyw ddedfryd a osodir er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r trosedd.

7.5 Mewn rhai achosion, mae'n bosib i'r Twrnai Cyffredinol gyfeirio'r ddedfryd at y Llys Apêl os bydd yn fodlon ei bod yn rhy drugarog[23]. Ble byddwn o'r farn fod dedfryd mewn achos o'r fath yn rhy drugarog, gallwn ofyn i'r Twrnai Cyffredinol ystyried ei chyfeirio at y Llys Apêl.

[23] http://www.cps.gov.uk/news/factsheets/fs-undulylenient.html

Casgliad

8.1 Rydym wedi ymrwymo i wella'r modd yr ymdrinnir â gyrru gwael yn y system cyfiawnder troseddol. Rydym eisiau i ddioddefwyr, eu teuluoedd a'u cyfeillion a thystion fod â hyder yn y ffordd rydym yn delio ag achosion sy'n cynnwys gyrru gwael, a dangos iddynt ein bod yn deall y boen a'r trawma a achosir o ganlyniad i yrru gwael.

8.2 Gobeithiwn y bydd y ddogfen hon yn helpu'r cyhoedd ddeall gwaith y CPS; sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau; a sut rydym yn ymdrin â'r materion sy'n codi yn yr achosion hyn, sef materion pur anodd yn aml.

8.3 Rydym yn cydnabod a chroesawu'r cyngor a'r gefnogaeth amhrisiadwy y gall asiantaethau cefnogi arbenigol eu cynnig i ddioddefwyr, eu teuluoedd a thystion.

8.4 Byddwn yn parhau i weithio gyda'r heddlu a chydweithwyr yn y system cyfiawnder troseddol, a'r sector gwirfoddol a chymunedol, i'n helpu i ddatblygu arferion gorau.

8.5 Byddwn yn adolygu'r datganiad polisi hwn yn rheolaidd fel y bydd yn adlewyrchu'r gyfraith gyfredol ac agweddau'r cyhoedd tuag at yrru gwael.

8.6 Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau i'n helpu i wneud hyn.

Atodiad A

Brake
Brake yw elusen genedlaethol diogelwch ar y ffyrdd, sy'n ymroi i atal marwolaethau ac anafiadau ar ffyrdd a gofalu am bobl mewn profedigaeth ac sy'n dioddef o ganlyniad i wrthdrawiadau ar y ffyrdd.
Llinell gymorth BrakeCare ar gyfer dioddefwyr gwrthdrawiadau ar y ffyrdd: 0845 603 8570
Blwch Post 548, Huddersfield HD1 2XZ
Ffôn: 01484 559909 Ffacs: 01484 559983
www.brake.org.uk

CTC – sefydliad cenedlaethol y seiclwyr
Mae CTC, sefydliad cenedlaethol y seiclwyr, yn darparu amrywiaeth o wybodaeth a gwasanaethau cyfreithiol i seiclwyr ac yn cynrychioli buddiannau seiclwyr a seiclo ar faterion yn ymwneud â pholisi cyhoeddus.

Swyddfa Genedlaethol CTC, Parklands, Railton Road, Guildford GU2 9JX
Ffôn: 0870 873 0060 Ffacs: 0870 873 0064
www.ctc.org.uk

Living Streets
Living Streets yw'r elusen genedlaethol sy'n ymgyrchu i gael gwell strydoedd a mannau cyhoeddus i bobl ar droed.

31 – 33 Bondway, Llundain SW8 1SJ
Ffôn: 020 7820 1010 Ffacs: 0207820 8208
www.livingstreets.org.uk

Roadpeace
Mae RoadPeace yn elusen genedlaethol sy'n gweithio i gefnogi pobl mewn profedigaeth a dioddefwyr a anafwyd mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd.

Llinell gymorth genedlaethol: 0845 4500 355

Blwch Post 2579, Llundain NW10 3PW
Ffôn: 020 8838 5102 Ffacs: 020 8838 5103
www.roadpeace.org

Cymorth i Ddioddefwyr
Cymorth i Ddioddefwyr yw'r elusen genedlaethol annibynnol sy'n helpu pobl ymdopi ag effeithiau trosedd. Mae'n darparu cyngor a gwybodaeth yn gyfrinachol ac am ddim i'ch helpu i ddelio â'ch profiad.

Llinell Gymorth i Ddioddefwyr: 0845 30 30 90
www.victimsupport.org.uk

Fe gewch chi ragor o gopïau o'r daflen hon gan:

Cangen Cyfathrebu'r CPS
Rose Court
2 Southwark Bridge
Llundain SE1 9HS

Ffôn 020 3357 0913
E-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton

Ffôn 01204 532121